**Grŵp Trawsbleidiol ar Hemoffilia a Gwaed wedi'i Heintio**
**4 Mehefin 2015 am 3pm**
**Ystafell B.2.11, Tŷ Hywel**

Yn bresennol:
Julie Morgan AC – Cadeirydd
Lynne Kelly – Hemoffilia Cymru
Nancy Cavill, staff cymorth Julie Morgan AC
Cafwyd ymddiheuriadau gan Mick Antoniw AC, William Graham, David Thomas a Craig Sugar.

Bu'r Grŵp yn trafod cyhoeddi Ymchwiliad Penrose yn yr Alban, ac ymddiheuriad y Prif Weinidog ar 25 Mawrth 2015 i rai sydd â hemoffilia, a heintiwyd â HIV a Hepatitis C drwy gynhyrchion gwaed y GIG wedi'u heintio. Nodwyd bod Grŵp Gorffen a Gorchwyl y Gweinidog bellach wedi ailgynnull, o dan gadeiryddiaeth Dr Chris Jones, Dirprwy Brif Gyfarwyddwr Meddygol. Croesawyd hyn gan y Grŵp i gynorthwyo i ymdrin â bylchau parhaus o ran gofal Hepatoleg Ymgynghorol yn Ysbyty Athrofaol Cymru, a mynediad at gyffuriau Hepatitis C newydd i gleifion o Gymru.